

# Anwen Francis



**Enw:** Anwen Francis

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Aberteifi, Ceredigion

**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol Uwchradd Aberteifi

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Hoffi'r amrywiaeth o bynciau, ond yn casau mathemateg!

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?** Newyddiadurwraig

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Wind and the Willows – rwyf wrth fy modd â llyfrau'n ymwneud ag anifeiliaid – yn enwedig ceffylau!

**Beth yw eich diddordebau?** Cystadlu ym myd y ceffylau, beirniadu ceffylau, mynd allan am fwyd gyda ffrindiau a mynychu'r sinema

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Treulio amser gyda'r teulu a ffrindiau agos

**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Unrhyw fath o gasineb, rhyfel a chreulondeb i anifeiliaid


**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Pan roeddwn yn naw mlwydd oed ac yn cystadlu mewn cystadleuaeth ysgrifennu gan yr Urdd

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** Mae unrhyw beth yn fy ysbrydoli! Yn enwedig sgysiaau gan bobl. Mae fy nychymyg bob amser yn mynd ar ras!

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Anifeiliaid a themâu arswyd

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Ewch ati, byddwch yn frwd a rhowch bopeth ar bapur neu gliniadur.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?** Y peth gorau yw cael cyfarfod â phlant dros Gymru a rhannu fy mrawdfrwydedd gyda hwy. Y peth gwaethaf – syniadau am storïau newydd yn chwyrlio o amgylch fy meddwl dydd a nos a minnau eisiau cwsg cyn dydd o waith.



## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?** Wind and the Willows gan Kenneth Grahame

**Hoff gymeriad o lyfr?** Big Friendly Giant

**Hoff le?** Adref

**Hoff fwyd?** Tato rhost a chyri twym!

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?** Black Beauty er braidd yn drist ar adegau

**Hoff air?** Chwit-chwat

**Superpower o ddewis?** Y gallu i ddiplannu!

**Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol?** Facebook (weithiau, ac os oes rhaid!)

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?** Fy mhlant, bod yn eu cwmni a gweld nhw'n hapus

**Swydd tase chi dim yn awdur?** Swydd ddelfrydol? Seicolegydd neu Heddwas

**Top tip i ddarpar awduron:** Ewch amdani. Credwch ynddo chi eich hun a'ch gwaith!

